# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Preswyl Tŷ Cwm Ogwr ar gyfer Pobl Hŷn**

**Tŷ Cwm Ogwr**
**Dan-yr-heol**
**Pen-y-bont ar Ogwr**
**CF32 7HY**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

24/01/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Cartref Preswyl Tŷ Cwm Ogwr ar gyfer Pobl Hŷn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Lleoedd cofrestredig | 28 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | [Manual Insert]28.06.2022 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth a gânt yng nghartref preswyl Tŷ Cwm Ogwr. Mae'r bobl yn dweud wrthym eu bod yn mwynhau byw yn y gwasanaeth ac yn rhoi adborth cadarnhaol am y gweithwyr gofal. Mae gan y gwasanaeth systemau ar waith i sicrhau bod y gofal a'r cymorth a gynigir o safon dda. Mae'r cynlluniau personol yn nodi canlyniadau unigol y bobl ac maent yn glir ac yn gryno. Mae'r profiadau yn ystod prydau bwyd yn gadarnhaol. Caiff y bobl eu hannog i fwyta eu prydau yn yr ardaloedd bwyta, ond cânt ddewis beth a ble y byddai'n well ganddynt fwyta. Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd cadarnhaol lle gallant wneud dewisiadau a phenderfyniadau, ond cânt eu hamddiffyn rhag niwed ar yr un pryd. Mae'r bobl yn ymddangos yn hapus, yn fodlon ac mae digon iddynt ei wneud. Mae'r staff yn trin y bobl fel unigolion a chaiff eu dewisiadau, eu hoff bethau a'u cas bethau eu hystyried. Mae'r prosesau ar gyfer recriwtio staff yn ddiogel ac yn effeithiol. Nid yw'r staff bob amser yn cael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt i gyflawni eu rôl. Newidiwyd y trefniadau ar gyfer goruchwylio'r gwasanaeth yn ddiweddar. Mae'r rheolwr wedi gadael, fodd bynnag, mae rheolwr interim yn llenwi'r swydd wrth i'r broses recriwtio fynd rhagddi. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw unigolyn cyfrifol ar gyfer y gwasanaeth. Mae AGC yn aros am gais gan yr enwebai newydd. Fodd bynnag, mae rheolwr o wasanaeth arall a Rheolwr Gwasanaethau'r Darparwr yn goruchwylio'r gwasanaeth.

## Llesiant

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch. Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio cadarnhaol rhwng y bobl a'r gweithwyr gofal drwy gydol yr arolygiad. Roedd cydberthynas wirioneddol dda yn amlwg rhwng y bobl a'r gweithwyr gofal ac mae'r gweithwyr gofal yn gyfarwydd ag anghenion y bobl a’r ffyrdd gorau o ddarparu gofal a chymorth. Roedd adborth cadarnhaol gan y bobl a'u cynrychiolwyr am ansawdd y gofal a ddarperir yn cefnogi ein harsylwadau.

Mae'r ddogfennaeth gofal yn y gwasanaeth yn llawn gwybodaeth ac yn gyfredol. Mae'r cynlluniau gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn fanwl ac yn glir i'w dilyn. Mae gan y gweithwyr gofal wybodaeth dda iawn am y bobl ac felly gallant sylwi ar unrhyw newidiadau yn gyflym ac ymateb yn brydlon. Mae'r bobl yn aros mor iach ag y gallant diolch i atgyfeiriadau amserol at weithwyr gofal iechyd proffesiynol a threfniadau effeithiol ar y cyfan ar gyfer rhoi meddyginiaeth.

Mae'r amgylchedd y mae'r bobl yn byw ynddo yn ddiogel ac yn gartrefol. Mae trefniadau cynnal a chadw cyson dda ar waith. Rhoddir blaenoriaeth i iechyd a diogelwch a chynhelir archwiliadau rheolaidd ar feysydd fel diogelwch tân a thymheredd dŵr. Mae'r gwasanaeth yn daclus ac, ar y cyfan, nid oes unrhyw beryglon. Mae'r cyfarpar symudedd yn gweithio'n dda. Mae'r bobl yn hoffi byw yng Nghartref Preswyl Tŷ Cwm Ogwr ac yn hapus. Roedd y sylwadau yn cynnwys “*you won’t find anything wrong here*” a “*they are better than good*”.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n sail i arferion diogel. Mae'r gweithwyr gofal wedi'u hyfforddi i ddiwallu anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi a gallant sylwi ar arwyddion o gam-drin, esgeulustod, iechyd gwael, a gweithredu'n unol â hynny. Dywedodd y gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n hyderus y bydd y rheolwr interim yn ymdrin ag unrhyw faterion a godir yn brydlon. Mae proses recriwtio ddiogel ar waith ac mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau.

Mae strwythur rheoli clir ar gyfer y gwasanaeth ond ar hyn o bryd mae swyddi'r rheolwr a'r unigolyn cyfrifol yn wag. Cawsom adborth cadarnhaol gan y staff y gwnaethom siarad â nhw, a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi gan y rheolwr interim. Mae systemau effeithiol ar gyfer monitro ac archwilio safonau cymorth a'r amgylchedd. Mae’r datganiad o ddiben ar gael i'r unigolion neu eu cynrychiolwyr. Mae gwasanaethau eiriolaeth annibynnol ar gael i'r unigolion.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael eu trin mewn modd cynnes a charedig. Gwelsom y staff gofal yn trin y bobl fel unigolion. Maent yn sylwgar iawn ac yn ymateb i wahanol anghenion y bobl gan gynnig lefelau priodol o anogaeth a chymorth. Mae'r bobl yn ymddangos yn gyfforddus ac yn gartrefol ym mhresenoldeb y staff. Mae'r staff yn siarad mewn modd cyfeillgar, gofalgar a pharchus ac mae'r bobl yn ymateb yn gadarnhaol. Dywedodd y bobl sy'n byw yng nghartref preswyl Tŷ Cwm Ogwr wrthym "*I think they do a wonderful job, nothing is too much trouble*" ac "*we are all very happy*". Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio cadarnhaol yn ystod yr arolygiad a gwelsom fod y staff gofal yn cefnogi'r bobl mewn modd urddasol.

Mae gan y gwasanaeth systemau ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaeth. Caiff meddyginiaethau eu storio'n briodol, ac ni welsom unrhyw fylchau yn y cofnodion rhoi meddyginiaeth (MAR). Cadarnhaodd y staff fod gwiriadau tymheredd yn cael eu cynnal bob dydd ond, ar ddiwrnod yr arolygiad, nid oedd modd dod o hyd i'r cofnod. Fodd bynnag, mae angen gwelliannau i sicrhau y caiff y canllawiau cyfredol eu dilyn mewn perthynas â chofnodi'r rheswm dros roi meddyginiaeth PRN (yn ôl yr angen) a'r canlyniad. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r cynlluniau personol yn nodi anghenion gofal cyfredol y bobl. Gwnaethom archwilio ffeiliau gofal y bobl a gwelsom eu bod yn darparu gwybodaeth glir a chyfredol am anghenion yr unigolyn. Gwelsom eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Caiff asesiadau risg manwl eu cwblhau pan fo angen. Roedd y gweithwyr gofal yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r bobl drwy gydol yr arolygiad. Caiff prydau eu paratoi'n ffres a chânt eu cyflwyno'n dda a'u gweini'n effeithlon. Dywedodd y bobl wrthym "*there is plenty of food*", "*it's always nice" ac "it's excellent*". Dywedodd perthynas "*they've always got the menu up, for family to see*".

Mae'r gwasanaeth yn cynnal safonau da o ran hylendid a rheoli heintiau. Gwelsom fod pob rhan o'r cartref yn lân ac yn hylan. Mae pob aelod o'r staff yn dilyn canllawiau cyfredol Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac roedd cyfarpar diogelu personol priodol yn cael ei ddefnyddio ym mhob rhan o'r cartref yn ystod yr arolygiad.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn cartref cyfforddus sy'n lân, yn gartrefol ac sy'n cynnig amgylchedd personol. Mae dwy uned yn y cartref, un ohonynt yn benodol ar gyfer pobl sydd wedi cael diagnosis o ddementia. Yn ystod taith o amgylch y cartref, gwelsom fod y bobl wedi personoli eu hystafelloedd gwely yn ôl eu dymuniadau, gan ddefnyddio eitemau fel lluniau, darluniau ac ornamentau. Gwelsom hefyd fod arwyddion yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r ardaloedd cymunedol yn cael eu defnyddio'n dda ar y ddwy uned, a gwelsom y bobl yn sgwrsio'n hapus â'i gilydd. Gwelsom fod y cartref yn gynnes ac yn gyfforddus a'i fod yn cefnogi llesiant y bobl.

Mae gan y gwasanaeth systemau ar waith sy'n sicrhau bod y cartref a'i gyfleusterau yn ddiogel. Gwnaethom edrych ar amrywiaeth o ddogfennaeth sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch a chynnal a chadw'r gwasanaeth. Mae'r wybodaeth yn rhoi trosolwg manwl o raglen dreigl o wiriadau diogelwch, gwaith gwasanaethu a chynnal a chadw ar gyfer cyfarpar a chyfleusterau'r cartref. Mae gweithdrefnau a phrofion tân effeithiol ac effeithlon ar waith i amddiffyn y bobl. Roedd y cofnodion yn cadarnhau bod profion wythnosol yn cael eu cynnal ar y larymau tân.

Cedwir cyfrinachedd ym mhob rhan o'r cartref. Mae'r bobl yn ddiogel rhag ymwelwyr heb awdurdod yn dod i mewn i'r adeilad, gan fod yn rhaid i bob ymwelydd ganu cloch y drws ffrynt cyn dod i mewn a gofynnir iddynt gofnodi eu hymweliadau yn y llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd ac wrth adael. Caiff y cofnodion gofal eu storio'n ddiogel a dim ond gweithwyr gofal awdurdodedig all eu gweld.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gall y bobl gael gafael ar wybodaeth i'w helpu i ddeall y gofal, y cymorth a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Mae'r datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth yn rhoi disgrifiad cywir o'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd o ran y llety sydd ar gael yn y gwasanaeth, y broses atgyfeirio a derbyn, y math o ofal a chymorth sydd ar gael a'r ffyrdd y mae'n gweithio tuag at ddarparu gwasanaeth Cymraeg. Mae'r datganiad o ddiben hefyd yn cynnwys manylion trefniadau goruchwylio a hyfforddi'r gwasanaeth ar gyfer y staff gofal. Mae'r adran adnoddau dynol yn cadarnhau bod y broses recriwtio staff yn bodloni'r holl ofynion rheoleiddiol.

Nid yw pob aelod o'r staff yn cael yr holl hyfforddiant gorfodol na'r holl hyfforddiant mwy arbenigol. Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddi a gwelsom nifer o fylchau lle na fu unrhyw hyfforddiant neu lle na fu hyfforddiant gloywi. Mae hyn yn golygu nad yw'r staff bob amser wedi'u hyfforddi'n ddigonol ar gyfer eu rôl. Codwyd y maes hwn fel maes i'w wella yn ystod yr arolygiad diwethaf. Rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth i'r gwasanaeth, y mae'n rhaid iddo weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Roedd y gweithwyr gofal yn canmol rheolwr interim y cartref yn fawr ac o'r farn eu bod yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Mae staff gofal newydd yn cael cyfnod sefydlu yn unol â gofynion Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae nifer o'r staff wedi gweithio yn y cartref ers sawl blwyddyn, sy'n darparu parhad gofal i'r bobl. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi a bod y gwaith tîm cyffredinol yn y cartref yn dda. Nododd yr arolygiad blaenorol nad oedd y polisïau a'r gweithdrefnau yn gyfredol nac yn cael eu hadolygu. Mae hyn yn cael sylw ar lefel gorfforaethol a gwnaed cynnydd sylweddol. Gwnaethom edrych ar amrywiaeth o bolisïau: meddyginiaeth, diogelu, chwythu'r chwiban a nodwyd gennym eu bod yn gyfredol. Dywed y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a bod morâl yn y cartref yn dda. Gwnaethant ddweud wrthym hefyd eu bod yn gallu siarad â'r rheolwyr, sy'n hawdd mynd atynt. Dywedodd y staff wrthym *"everything is fine", "I love it, "the manager is approachable"* ac *"It's lovely here, they all made me welcome"*. Mae rhaglen newydd o sesiynau goruchwylio staff ar waith er mwyn gwneud yn siŵr bod y staff yn cael eu cefnogi yn eu rolau.

Mae'r trefniadau llywodraethu a monitro ansawdd yn galluogi'r gwasanaeth i nodi meysydd i'w gwella ac i weithredu'n effeithiol. Mae ymweliadau gan yr unigolyn cyfrifol yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac mae'n ymgysylltu â'r bobl a'r gweithwyr gofal i lywio gwelliannau. Mae'r gwasanaeth yn llunio adroddiad ar ansawdd y gofal bob chwe mis, sy'n nodi cryfderau'r gwasanaeth, meysydd i'w datblygu a'r dadansoddiad o ddigwyddiadau fel materion diogelu, cwynion a phryderon.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 36 | Nid yw'r gwasanaeth wedi sicrhau bod y staff gofal wedi derbyn hyfforddiant yn unol â'i ddatganiad o ddiben. | Heb Gyflawni |
| 80 | Rhaid i’r unigolyn cyfrifol baratoi adroddiad i ddarparwr y gwasanaeth gan gynnwys asesiad o'r safonau gofal a chymorth ac argymhellion ar gyfer gwella yn y gwasanaeth | Cyflawnwyd |
| 60 | Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth hysbysu AGC am ddigwyddiadau a ddynodir o dan Ran 1 Atodlen 3 | Cyflawnwyd |
| 12 | Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau priodol ar waith, a bod y rhain yn briodol i'r bobl yn y gwasanaeth ac yn cael | Cyflawnwyd |

| | | |
|---|---|---|
| | eu diweddaru'n barhaus. | |
| 19 | Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau y caiff y canllaw ysgrifenedig ei ddyddio, ei adolygu, a'i ddiweddaru fel y bo angen. Mae angen iddo hefyd gynnwys gwybodaeth am sut i gwyno ac am y cymorth eiriolaeth sydd ar gael. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 58 | Nid oedd cofnodion tymheredd ar gyfer ardaloedd storio meddyginiaeth ar gael ac nid oedd y rheswm dros roi PRN na chanlyniad y feddyginiaeth yn cael eu cofnodi. | Newydd |
| 15 | Mae angen diweddaru'r Cynlluniau Personol i adlewyrchu anghenion gofal a chymorth y bobl yn gywir ac i liniaru risg | Cyflawnwyd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 07/03/2023